






Sefydlwyd Abaty Talylychau gan yr Arglwydd Rhys pan oedd tua 54 oed.




Bu farw Harri'r II yn 1189, a dros y 7 mlynedd nesaf, ymosododd yr Arglwydd Rhys ar gestyll yng Nghaerfyrddin, Llanhuadain, Nanhyfer, Castell-paen, Abertawe a Chas-wis, a'u cipio, ond colodd reolaeth ar Faelienydd, Cas-wis a San Clêr.




Yn 25 oed, daeth Rhys yn llywodraethwr y Deheubarth, teyrnas oedd yn cwmpasu Ceredigion, Ystrad Tywi a Dyfed. (h.y. ardaloedd Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, y rhan helaethaf o Abertawe a rhywfaint o Geredigion heddiw).




Flwyddyn ar ôl gwrthryfel yr leirll, tyngodd yr Arglwydd Rhys lw o deyrngarwch i Harri'r II yn gyhoeddus ar 29ain Mehefin yng Nghaerloyw, gerbron llywodraethwyr Cymreig de Cymru, y rhan fwyaf ohonynt yn perthyn iddo drwy briodas.




Dri mis ar ddeg ar ôl ildio i Harri'r II yn Woodstock, ymunodd yr Arglwydd Rhys â Thywysogion eraill Cymru i frwydro yn erbyn y brenin yng Nghorwen. Oherwydd glaw trwm yn ystod y frwydr, gorfodwyd byddin y brenin i gilio i Loegr.




Penododd Harri'r II yr Arglwydd Rhys yn 'Ustus De Cymru' yng nghastell Talacharn. Caniatwyd i'r Arglwydd Rhys gadw'r tiroedd yr oedd wedi'u cipio yn yr 8 mlynedd er 1164, yn gyfnwid am amddiffyn tiroedd y brenin a'r Gororau rhag ymosodiad.




Dair blynedd ar ôl sefydlu Abaty Talylychau, cyfarfu'r Arglwydd Rhys â Giraldu Cambrensis/Gerallt Gymro ac archesgob Caergaint oedd yn recriwtio pobl i fynd ar grwsâd i'r Wlad Sanctaidd. Perswadiodd Gwenllïan ferch Madog, gwraig yr Arglwydd Rhys, ef i beidio mynd.




Bu Rhys yn ymladd yn erbyn y Normaniaid o oedran cynnar iawn. Pan oedd tua 15 oed, cipiodd Llansteffan gyda'i frodyr, Cadell a Maredudd.




Dair blynedd ar ôl i'r berthynas rhwng Harri'r II a'r Arglwydd Rhys newid er gwell, arweiniodd yr Arglwydd Rhys fyddin i gefnogi Harri yn Tutbury, yn ystod gwrthryfel rhai o leirll Lloegr yn erbyn y brenin.




Wyth mlynedd ar ôl dod yn llywodraethwr y Deheubarth, ac wedi llawer o wrthdaro, cafodd yr Arglwydd Rhys ei ddal a'i garcharu gan luoedd Brenin Harri'r II, ac ildiodd i'r brenin yn Woodstock ym mis Gorffennaf.



Ddeng mlynedd ar ôl dod yn llywodraethwr y Deheubarth, daeth yr Arglwydd Rhys yn noddwr Abaty Ystrad Fflur, a sefydlwyd gan Robert Fitz Stephen y flwyddyn flaenorol.



Pan oedd tua 40 oed, yn sgil marwolaeth Owain Gwynedd, daeth yr Arglwydd Rhys yn llywodraethwr mwyaf pwerus Cymru. Gwellodd y berthynas rhwng yr Arglwydd Rhys a Harri'r II wrth i Harri roi heibio ei gweryll â'r Arglwydd Rhys er mwyn cadw'r heddwch.



Mae dogfen o'r canol oesoedd — *Brut y Tywysogion* — yn disgrifio gŵyl o gerddoriaeth a barddoniaeth a gynhaliwyd yng nghastell Aberteifi, 5 mlynedd ar ôl i'r Arglwydd Rhys ailadeiladu castell Aberteifi o garreg. Erbyn hyn, ystyrir mai'r ŵyl hon oedd yr Eisteddfod gyntaf erioed.

